Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

**2.00 PM, DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022**

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

1. **Cyhoeddiad y Cadeirydd**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. R Mizen.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 9 a 10 o Fwrdd y Cabinet.

2. **Datganiadau o fuddiannau**
Gwnaeth y Cynghorydd S Reynolds ddatganiad o fuddiant yn erbyn eitem 7 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

3. **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Craffu Addysg, Sgiliau a Lles a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022, fel cofnod cywir.

4. **Y diweddaraf am COVID-19 (llafar)**
Rhoddwyd diweddariad llafar i'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas ag eitem 4 ar yr Agenda. Nodwyd bod effaith COVID wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn presenoldeb disgyblion, gan effeithio'n bennaf ar iechyd meddwl a lles unigolion. Hysbyswyd yr aelodau fod profiadau dysgu o ran llythrennedd a rhifedd yn wynebu diffyg parhaus. Roedd staff yn parhau i gefnogi disgyblion a theuluoedd gyda hyn.

Roedd cyfyngiadau polisi, arweiniad i rieni a sylw gan y cyfryngau yn parhau i fod yn her. Amlygwyd manteision ar gyfer datblygu

technoleg, yn enwedig gyda llwyfannau dysgu cydamserol ac anghydamseredig. Roedd newidiadau fesul cam i strwythurau bellach yn cael eu gweld o fewn ysgolion - un enghraifft o hyn oedd cwtogi amserau egwyl.

Dywedodd Swyddogion, ers Gorffennaf 2022 nad oedd absenoldebau oherwydd COVID bellach yn cael eu cofnodi fel rhesymeg penodol ar gyfer absenoldeb disgyblion.

5. **Blaenraglen Waith 2022/23**

Holodd yr aelodau am ddiweddariad mewn perthynas â chais a wnaed i'r flaenraglen waith craffu ynghylch yr argyfwng costau byw. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, ac mae hyn wedi'i drefnu o fewn y Flaenraglen waith.

Holodd yr aelodau am ddiweddariad ynghylch y Gymraeg o fewn ysgolion yn dilyn canlyniad rhaglen y cyfrifiad.

Gofynnodd yr aelodau hefyd i Swyddogion hysbysu'r Pwyllgor Craffu'n llawn am adroddiadau sydd i'w disgwyl yng nghyfarfodydd Bwrdd y Cabinet fel bod y drefn briodol wedi'i dilyn o ran prosesau Craffu.

6. **Craffu Cyn Penderfynu**

**<u>Perfformiad Chwarter 2</u>**

Adolygodd yr aelodau yr adroddiad Perfformiad Chwarter 2, a gofynnwyd i Swyddogion egluro canlyniad PI.2.4, sy'n gysylltiedig ag Amcan Lles 4. Cwestiynodd yr aelodau y ffigur isel o 22, yn erbyn y ffigur targed o 45.
Rhoddodd y Swyddogion drosolwg o'r heriau a wynebir, yn enwedig o ran cyllid. Trafodwyd y gostyngiad mewn cyllid Ewropeaidd ynghyd â'r gronfa ffyniant gyffredin. Hysbyswyd yr aelodau hefyd o'r anawsterau yn y prosesau ymgysylltu â theuluoedd ar ôl y pandemig. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Swyddogion yn awyddus i archwilio tactegau amgen wrth fynd i'r afael â'r materion parhaus.

Diolchodd yr aelodau i'r Swyddogion am eu hymdrechion parhaus a'r cynnydd roeddent wedi'i wneud wrth godi arian o fewn cymunedau, a'r cynnydd mewn cynhyrchu incwm ar gyfer

digwyddiadau parhaus mewn lleoliadau penodol, gan gynnwys Orendy Margam a pharhad Priodasau.

Mae'r eitem agenda yn fater i'w fonitro a bydd yn cael ei nodi.

**Diogelu ym myd Addysg**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau a oedd yn cynnwys diweddariad ar ddiogelu plant o fewn ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Derbyniodd Swyddogion gwestiynau'n ymwneud â digwyddiad hyfforddi, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022. Gofynnodd yr aelod cyfetholedig i'r Swyddogion gadarnhau bod y digwyddiad wedi mynd yn ei flaen a gofynnodd am rywfaint o adborth o ran pethau cadarnhaol ac unrhyw bethau negyddol a wynebwyd yn ystod y digwyddiad.
Cadarnhaodd Swyddogion fod y digwyddiad wedi mynd yn ei flaen ar 28 Tachwedd 2022 a bod llawer wedi mynd iddo, a dywedodd bod bron 50 o bobl yn y digwyddiad. Hysbyswyd yr aelodau fod ysgolion, yn dilyn y digwyddiad, wedi gofyn am sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr gyda'r gobaith o gyflwyno'r hyfforddiant rhithiol yn gynharach. Cadarnhaodd Swyddogion hefyd fod cyllid wedi'i sicrhau i redeg y digwyddiad hyfforddi'r hyfforddwyr.

Mae'r adroddiad yn fater i'w fonitro ac mae wedi’i nodi.

**Presenoldeb Disgyblion**

Darparwyd diweddariad ar bresenoldeb disgyblion yn Ysgolion Castell-nedd Port Talbot i'r aelodau, a materion penodol yn ymwneud â'r cyd-destun hwn.
Dywedodd aelodau fod yr adroddiad yn un diddorol, ond ei fod yn amlygu'r heriau wrth symud ymlaen o ran rhieni sy'n dewis addysgu eu plant gartref. Cododd yr aelodau bryderon am ansawdd addysg gartref a'r effaith ar gofrestru plant.
Trafodwyd y cynnig i gyflwyno bil addysg gartref ar gyfer cofrestr bresenoldeb orfodol yn ysgolion Lloegr. Gofynnodd yr aelodau a oedd y dull hwn wedi cael ei ystyried ar gyfer ysgolion CNPT.

Rhoddodd Swyddogion esboniad i'r Aelodau, gan ddweud y byddai adroddiad yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel rhan o'r flaenraglen waith. Byddai'r adroddiad yn cynnwys manylion am addysg gartref dewisol. Aeth swyddogion ymlaen i gadarnhau bod

ysgolion wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref. Diweddarwyd yr aelodau ar yr arweiniad newydd sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd, a dywedodd y Swyddogion fod cofrestrau presenoldeb disgyblion yn cael eu hystyried, ynghyd â ffurflenni i nodi manylion ynghylch sut mae addysg gartref yn cael ei chyflwyno a pha welliannau y gellir eu gwneud.

Cwestiynodd yr aelodau yr hysbysiadau cosb y mae rhieni'n eu hwynebu am ddiffyg presenoldeb disgyblion, a pha ystyriaethau, os o gwbl, oedd yn cael eu rhoi yn ystod amseroedd anodd parhaus, yn enwedig o ran yr argyfwng costau byw.
Hysbyswyd yr aelodau fod ysgolion wedi cyhoeddi llythyrau rhybudd o hysbysiadau cosb benodedig ond roedd hyn yn cael ei ystyried yn ddewis olaf. Roedd ysgolion yn ymwybodol bod angen i blant a rhieni addasu ar ôl y pandemig a'r rhaglenni dysgu cyfunol ychwanegol. Ymhelaethodd Swyddogion ymhellach ar y budd o gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig fel dewis arall yn lle erlyniad ac achosion llys. Unwaith eto amlinellwyd yr opsiwn hwn fel mesur dewis olaf.

Hysbysodd Swyddogion yr aelodau ymhellach o’r gwaith cydweithio sy'n cael ei wneud ar y cyd ag adrannau Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

7. **Eitemau brys**

Ni chafwyd unrhyw gyhoeddiadau.

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Sul, 4 Rhagfyr 2022**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **R.Phillips** |
| **Is-gadeirydd:** | **Y Cynghorydd D.Thomas** |
| **Cynghorwyr:** | W.Carpenter, M.Crowley, N.Goldup-John, J.Henton, J.Jones, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds a/ac D.Whitelock |
| ***Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio** | A. Amor, M.Caddick a/ac L.Newman |
| ***Aelodau Cyfetholedig nad ydynt yn Pleidleisio** | R.De Benedictis |

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*